



# Crynodeb Arfarniad Ysgolion Ffederal Betws Gwerful Goch a Bro Elwern 2025-26



Rydym yn adolygu'n gyson fel ysgolion, yn gweithredu, ac yn dysgu er mwyn gwella'n barhaus i sicrhau ein bod darparu'r addysg orau bositib i holl ddysgwyr ein hysgolion. Mae sicrhau amgylchedd sydd yn hybu lles ac hapusrwydd pob disgybl yn blaenoriaeth cyson yn ein hysgolion, ac yn ran o'n gweledigaeth.

Trwy'r brôses o hunan-arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgolion, rydym yn adnabod ein blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

## Ein Cryfderau

### Arweinyddiaeth

- Mae gan yr ysgolion weledigaeth glir wedi'w chreu gyda chyfraniad ein holl randdeiliad.
- Mae gan yr ysgolion fframwaith hunan arfarnu rheolaidd, sy'n sicrhau bod adolygu parhaus yn rhan annafod o fywyd yr ysgolion.
- Mae disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar draws yr ysgolion, ac mae cyd-weithio effeithiol yn treiddio drwy'r ddydd ysgol o ddydd i ddydd.
- Mae llais y disgybl yn gryff o fewn yr Ysgolion.
- Mae staff yn arwain cynghorau'r ysgolion ar y cyd hefor dysgwyr—Y. Cyngor eco, Cyngor Ysgol, Siarter iaith a'r Cyngor Lles, ac yn cyfarfod yn rheolaidd gan drefnu digwyddiadau yn yr Ysgol a'r gymuned.

### Cwricwlwm

- Mae'r cwricwlwm yn cynnig amrywiaeth o brofiadau cyfoethog sy'n meithrin disgyblion sy'n ymfalch o eu Cymreictod a diwylliant ein hardal leol.
- Rydym yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau er engraifft Edina Trust i gyfoethogi ein darpariaeth ysgol y goedwig.
- Rydym yn cefnogi datblygiad proffesiynol holl staff yr ysgolion yn gyson, ac yn sicrhau ein bod yn mynuchu hyfforddiant amrywiol yn gyson er mwyn datblygu ein cwricwlwm yn barhaus.
- Mae ein cwricwlwm gydlynus er mwyn gwreddu ein gweledigaeth i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinas ymddyddion uchelgeisiol, mentrus, creadigol, egwyddorol a iach.

## Addysgu a dysgu

- Mae gennym gwricwlwm eang, cytbwys a diddorol sydd yn datblygu'r plentyn cyflawn.
- Mae awyrgylch croeswgar a diogel ar draws yr ysgolion ble mae cyfele i ffynnu, mewn awyrgylch o gyd-barch, gwerthfawrogiad a dathlu llwyddiannau ein gilydd.
- Mae blaenoriaeth cyson yn cael ei roi ar ddatblygu sgiliau llythrennedd rhifedd a digidol y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn unol a'u hoedran a'u gallu.

## Lles, tegwch a chynhwysiant

- Mae'r ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion gymeryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gan gynnwys yr ysgol goedwig, chwaraeon amrywiol, ac edrych ar ol tir yr ysgol a'r gymuned.
- Mae strwythurau a phrosesau effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Mae trefniadau effeithiol i asesu a chefnogi lles disgyblion, gan gynnwys arfarnu ein darpariaeth yn flynyddol.



## Blaenoriaethau 2024-25

Blaenoriaeth 1- Datblygu sgiliau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg ar Saesneg

Sut? Cynnig profiadau i'r disgylion sydd yn sbarduno, ac yn ennyn diddordeb mewn ysgrifennu. Gwahodd awduron a beirdd i'r ysgolian er mwyn cyd-weithio hefo'r plant.

Datblygu llawysgrifen, geirfa, a defnydd ein disgylion o idiomau, ansoddeiriau a chymariaethau.

Blaenoriaeth 1- Cyfoethogi'r cyfleoedd i ddigybllion wneud rhagor o ddewisiadau yn annibynnol, gan gynnwys dulliau cofnodi. Sicrhau bod adborth yn adeiladol, ac yn helpu'r disgylion gyda'r camau nesaf yn eu dysgu.

Cyfoethogi adnoddau'r ysgol ar ddarpariaeth

Cynllunio heriau sydd yn sbarduno diddordeb, ac yn annog annibyniaeth.

Blaenoriaeth 2-Cyfoethogi geirfa a phatrymau iaith ein disgylion ymhellach ar lafar.

Gwneud defnydd cyson o gynllun lloaredd Sir Ddinbych.

Gloywi iaith

Hybu darllen er mwynhad

Blaenoriaeth 2-Datblygu cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored

Ehangu ar gyfleoedd y plant i ddysgu yn yr awyr agored drwy fuddsoddi mewn offer, a chynnig profiadau Ysgol y goedwig.



Blaenoriaeth 3: Datblygu gwylnwch, a meddylfryd disgylion drwy sirenio ac addasu systemau cefnogi lles yn yr Ysgol.

Mae lles yn hynod o bwysig i ni yn y ddwy ysgol. Rydym yn anelu i sicrhau bod ein disgylion yn datblygu

Sylfaen cadarn er mwyn eu galluogi i fod yn ddysgwyr gydol oes, sydd yn gwynebu heriau hefo meddylfryd positif, ac yn dathlu, ac ymfalchio yn eu llwyddiannau.



Is- blaenoriaeth:

Parhau i ddatblygu sgiliau darllen a llythrennedd Saesneg dysgwyr hynaf y ddwy Ysgol (blwyddyn 3-6).

Mae gennym gynllun sillafu newydd, ac rydyn ni wedi buddsoddi mewn rhaglen i ddatblygu sgiliau sillafu a darllen Saesneg y plant.

## Blaenoriaethau 2025-26

Dyma drasolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn

canolbwntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2025-26 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r addysg orau bösib ar gyfer ein dysgwyr.

Blaenoriaeth 3-Cyfoethogi'r elfennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y cwricwlwm gan gynnwys meithrin cysylltiadau ag ysgolian byd eang ac ennill y faner werdd eco-ysgol.

Creu cyswllt hefo ysgolian ar draws y byd, a pharhau i gadw cyswllt hefo Ysgol Gaiman, ym Mhatagonia.

Blaenoriaeth 4-Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwysol eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau menter a busnes.

Is- blaenoriaeth-

Datblygu arweinyddiaeth dosrandedig ymhellach

Sicrhau bod cyfleoedd i arwain ar amrywiaeth o agweddau o fywyd yr ysgol ar gael i bawb.